

Cysylltiadau Cyhoeddus – Arweiniad syml ‘sut i wneud’

Dydy'r arweiniad syml yma ddim i fod i'ch gwneud chi'n arbenigwr mawr ar gyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus. Mae wedi ei fwriadu i helpu llyfrgelloedd o bob maint a math i fod yn fwy effeithiol gyda'u cysylltiadau cyhoeddus a gallu rhoi mwy o storïau, a rhai gwell, yn y wasg a'r cyfryngau eraill. Mae'r arweiniad hwn yn cymryd nad yw llyfrgelloedd unigol yn dechrau ymgyrchoedd cyflawn i gysylltu â'r cyhoedd, ond y byddant yn canolbwyntio ar gael sylw cadarnhaol, ar gyfer llwyddiannau a digwyddiadau, er mwyn creu diddordeb yn eu llyfrgell ymysg y bobl y maent yn anelu atynt.

Yn hytrach na phaldaruo am ddamcaniaeth cysylltiadau cyfryngol dyma i chi restr gennym ar ei phen o gynghorion a fydd yn eich rhoi chi ar ben ffordd i gael sylw cadarnhaol gan y wasg i'ch llyfrgell.

1. Dydy cysylltiadau cyhoeddus ddim yn golygu

Dydy cysylltiadau cyhoeddus ddim yn golygu hysbysebu'n neu werthu'n uniongyrchol fe arfer. Dydyn nhw ddim yn rhoi canlyniadau y gallwch chi eu mesur ar unwaith. Mae cysylltiadau cyhoeddus yn golygu creu presenoldeb mewn amrywiaeth o gyfryngau a fydd yn newid barn dros amser. Yr eithriad i hyn yw defnyddio datganiadau i'r wasg i ddenu pobl i ryw ddigwyddiad arbennig, dull y byddai llyfrgelloedd yn gallu ei roi ar waith yn effeithiol yn lleol.

2. Creu cynnyrch da yn gyntaf, ei hysbysebu wedyn

Cyn ceisio rhoi storïau yn y wasg neu ddenu ymwelwyr newydd i'ch llyfrgell byddwch yn siŵr fod y llyfrgell cystal, ac mor groesawus, ag y mae hi'n gallu bod. Ewch i siopau lleol i ddwyn eu syniadau am arddangosiadau ac edrych yn y 'llawlyfr arloesi manwerthu' am gynghorion ac awgrymiadau ynglŷn â sut i dwtio eich llyfrgell gydag ychydig iawn o ymdrech a dim arian. Os yw eich datganiad i'r wasg am ddigwyddiad sydd ar ddod byddwch yn siŵr bod hwn yn cael ei hysbysebu, gyda'r stoc berthnasol o lyfrau, wrth i bobl ddod i mewn i'r llyfrgell.

3. Cyfrinach llwyddiant

Y peth pwysig i'w gofio gyda chysylltiadau cyhoeddus yw mai eich perthynas chi gyda'r cyfryngau a fydd yn dylanwadu ar llwyddiant eich datganiadau i'r wasg. Gydag awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol, eich perthynas gyda'r adrannau cyfathrebu corfforaethol fydd yn holl bwysig o ran sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth a sylw yn rheolaidd ar gyfer y storïau yr ydych chi am eu cyhoeddi. Felly, ystyriwch eich perthynas gyda'r cyfryngau lleol ar gyfer y dyfodol, hyd yn oed os ydych chi'n anfon dim ond datganiad i'r papur lleol unwaith pob dau fis. Bydd perthynas dda nawr yn eich helpu chi i sicrhau sylw yn y dyfodol.

- Ceisiwch ddarganfod pwy yw'r newyddiadurwyr gyda'ch papur lleol a phwy allai fod â diddordeb mewn stori sy'n ymwneud â'r llyfrgell (gwelwch restr o gysylltiadau yn y cyfryngau yn eu hardaloedd yma).
- Ceisiwch feithrin perthynas gyda newyddiadurwr cyfeillgar gyda'ch papur lleol a'r orsaf radio. Siaradwch gyda nhw am ddigwyddiadau sydd ar ddod neu storïau a allai fod o ddiddordeb
- Meddyliwch bob amser am storïau o safbwynt y newyddiadurwr. Ydy'r stori a'r modd y mae hi wedi ei chyflwyno yn eu helpu nhw i wneud eu gwaith?
- Cofiwch bob amser gynnig deunydd cefnogol a ffeithiau cefndir gyda'ch stori. Bydd lluniau digidol a chofiannau byrion i gyd yn gymorth i wneud y stori'n fwy deniadol i newyddiadurwyr.
- Mae llun gyda rhywbeth hynod amdano yn gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng hanner tudalen yn y papur a thafllu eich stori i'r bin sbwriel. Edrychwch ar arddull y lluniau y mae'r cyfryngau yr ydych chi'n anelu atynt yn eu defnyddio a cheisiwch greu rhywbeth a fydd yn sefyll allan yn ddiddorol ac yn wahanol yn yr arddull honno.
- Ceisiwch ddarganfod sut y mae'n well gan newyddiadurwyr dderbyn datganiadau i'r wasg ac anfon eich cysylltiadau yn y modd hwnnw. Yr e-bost yw'r dull y maen nhw'n ei ddewis yn aml iawn i anfon pethau, ond peidiwch â thybio mai felly mae hi. Mae fformatau ffeil ar gyfer datganiadau i'r wasg a lluniau yn gallu bod yn bwysig hefyd er mwyn ei gwneud yn hawdd i newyddiadurwyr ddefnyddio eich storïau.

4. Amcan eglur

Beth ydych chi am i'r cyfryngau ei ddweud ac wrth bwy? Ydych chi'n ceisio creu diddordeb mewn digwyddiad sydd ar ddod, sôn am newid, rhoi adroddiad am llwyddiant neu hysbysebu swydd neu wasanaeth newydd? Byddai pob un o'r rhain yn gallu bod ar gyfer carfannau gwahanol o bobl, yn gorfod defnyddio cyfryngau gwahanol a chael eu hysgrifennu gyda'naws ac arddull wahanol. Mae penderfynu ynglŷn â'ch amcanion cyn cychwyn yn hanfodol bwysig ar gyfer llwyddo. Mae'n bosibl nad ysgrifennu datganiad a'i anfon i'r papur lleol yn unig yw'r hyn sydd ei angen a gallech wastraffu eich amser trwy wneud hynny.

Y dull hawsaf o ddiffinio eich amcanion yw dychmygu beth fyddai eich canlyniad delfrydol o wneud datganiad i'r wasg.

Oes arnoch chi eisïau...

- i'r cyhoedd ddod i ddigwyddiad,
- i fwy o ddefnyddwyr newydd gofrestru,
- i'r defnyddwyr presennol ddod i gael gwasanaeth newydd,
- i wneuthurwyr polisi weld gwerth yng ngwasanaeth y llyfrgelloedd,
- i bobl weld y llyfrgell ar newydd wedd,
- galw am fwy o gyllideb ar gyfer eich gwasanaeth llyfrgelloedd?

Byddai'r rhestr yn gallu bod yn ddiddiwedd. Enghreifftiau yn unig yw'r pethau uchod, ond mae'n hanfodol bwysig eich bod yn deall eich amcanion cyn dechrau.

5. Pwy yw eich cyhoedd a pha gyfryngau maent yn eu darllen, yn gwranddo arnynt neu'n eu gwyllo?

Mae penderfynu pwy yw eich 'cyhoedd' neu eich cynulleidfa ar gyfer stori newyddion yn hanfodol bwysig. Pwy ydych chi am ddylanwadu arnynt gyda'r stori. Bydd cysylltiad agos rhwng hyn a'r amcan y gwnaethoch chi ei benderfynu a bydd yn effeithio ar y modd y mae'r stori'n cael ei hysgrifennu a lle bydd hi'n cael ei chyhoeddi. Dyma rai enghreifftiau o'r math o bobl y gallech chi anelu eich stori atynt:

- Y cyhoedd
- Pob sydd ddim yn defnyddio'r llyfrgell
- Defnyddwyr y llyfrgell
- Gweithwyr y llyfrgell
- Cynghorwyr lleol
- Sefydliadau neu adrannau'r llywodraeth leol
- Y gymuned fusnes

Mae modd cyrraedd pob un o'r carfannau hyn gyda chyfrwng gwahanol neu gyfuniad o gyfryngau, er enghraifft:

- Adran fusnes y papur lleol, yn hytrach nag adran y prif newyddion
- Cylchgrawn yr awdurdod lleol
- Papur newydd y myfyrwyr
- Cyhoeddiadau masnachol fel y Cilip Update

Byddwch yn siŵr eich bod yn gwybod pwy yw eich cynulleidfa a'r cyfrwng a fyddai'n debygol o ddylanwadu arnynt.

6. Byddwch yn siŵr bod eich stori yn werth sylw

Yn y bôn, oes 'na ryw werth yn eich stori chi? Anghywir fyddai tybio na fydd gan y cyfryngau a'u darllenwyr ddiddordeb yn y stori fwyaf syml o lyfrgell. Anghywir hefyd fyddai tybio y bydd gan newyddiadurwr unrhyw fath o ddiddordeb mewn stori sy'n cael ei chyflwyno o safbwynt llyfrgell. Mae'n rhaid i chi greu 'ongl' ar gyfer eich stori. Edrychwch ar yr hyn a fyddai'n gallu bod yn stori a phenderfynu pa agwedd arni allai gipio diddordeb cynulleidfa benodol. Er enghraifft, os oes gennych chi lyfrgellydd neu gyfleuster TGCh newydd ac eisiau denu defnyddwyr newydd i mewn i'r llyfrgell, fe allai'r stori fod 'Mynediad i'r band llydan a hyfforddiant am ddim yn dod i ganol y dref'.

- Chwiliwch am bethau anarferol, prosiectau neu bartneriaethau anghyffredin a allai danio diddordeb pobl.
- Bydd y wasg leol a rhanbarthol yn gofyn am ongl leol.
- Bydd cylchgronau masnach yn gofyn am ongl sy'n benodol i'w darllenwyr.
- Bydd ar bob cyhoeddiad angen fersiwn o'ch stori sy'n berthnasol i'w gynulleidfa. Byddwch yn barod i lunio gwahanol fersiynau o'ch stori ar gyfer y gymuned fusnes, y cyhoedd a gwleidyddion, er enghraifft.

7. Cynhyrchu storïau sy'n werth sylw yn rheolaidd.

Bydd cynnig storïau diddorol i'r wasg yn rheolaidd nid yn unig yn rhoi presenoldeb cyson i'ch llyfrgell ym meddyliau eich cynulleidfaedd, bydd yn dangos hefyd i'r newyddiadurwyr eich bod yn ffynhonnell dda o ddeunydd, a gallai fod yn gymorth i chi gael sylw i storïau gwirioneddol bwysig yn y dyfodol.

- Ceisiwch anfon allan stori sy'n werth sylw yn y wasg o leiaf bob dau fis
- Peidiwch ag ysgrifennu pob stori gyda'r un dull neu ongl. Rhowch wedd newydd arni bob tro
- Ceisiwch gael storïau gan weithwyr a defnyddwyr y llyfrgell – rhowch 'flwch awgrymiadau' yn eich llyfrgell lle gall pobl gyflwyno syniadau ar gyfer digwyddiadau, storïau neu adborth am y gwasanaeth
- Defnyddiwch newyddlenni mewnol y staff neu'r fewnwyd i annog pobl i gyflwyno storïau newydd

8. Byddwch yn siŵr eu bod yn darllen eich stori

Mae newyddiadurwyr, fel pob un ohonom, yn brin o amser. Mae datganiadau i'r wasg a storïau yn gallu pentyrru fel sbwriel ar eu desgïau. Byddwch yn siŵr bod gan eich stori chi rywbeth sy'n denu sylw. Dylai'r pennawd neu'r testun ar ben y darn fod fel bachyn i afael yn niddordeb y darlennydd. Yna mae gennych chi'r paragraff cyntaf neu dair brawddeg i gadarnhau eu diddordeb. Yn yr ychydig eiriau hyn mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cyflwyno stori:

- Sy'n berthnasol a diddorol i'w darllenwyr
- Y mae rhywbeth newydd neu ddiddorol amdani
- Y mae ganddi ddigon o sylwedd i lenwi gofod yn fuddiol yn eu cyhoeddiad neu raglen.

Mae'n rhaid crynhoi grym eich stori yn y paragraff agoriadol hwnnw er mwyn sicrhau nad yw'n mynd ar ei phen i'r fasedg sbwriel. Os bydd newyddiadurwr yn darllen y paragraff agoriadol yn unig, mae'n rhaid iddo gynnig digon iddo neu iddi gychwyn erthygl. Yng nghynnwys y datganiad i'r wasg ceisiwch gyfleu eich pwynt mwyaf pwysig ar ffurf dyfyniad gan rywun mewn swydd uwch yn y sefydliad. Yn aml, bydd newyddiadurwyr yn defnyddio dyfyniadau i roi awdurdod i stori, felly rhowch gymorth iddyn nhw a'u cynnig yn rhan o'ch datganiad i'r wasg.

9. Llunio datganiad i'r wasg

Dylid llunio a chyflwyno datganiadau i'r wasg mewn modd sy'n hwyluso pethau i newyddiadurwyr. Dyma nifer o gynghorion allweddol:

- Nodwch ddyddiad y datganiad i'r wasg yn glir ar ben y dudalen – er mwyn sicrhau bod golwg newyddion cyfredol arno.
- Os yw'r stori i'w 'rhyddhau ar unwaith' yna dylid nodi hyn hefyd ar ben y dudalen.
- Nodwch 'dechrau a 'gorffen' yn glir ar ddechrau a diwedd eich stori, er mwyn gwahanu'r wybodaeth ategol oddi wrth y brif stori.
- Rhowch bennawd clir a phendant sy'n crynhoi ongl y stori – e.e. "Pobl ifanc yn gadael canol y dref yn heidiau i fwynhau mynediad am ddim i'r We".
- Rhowch baragraff agoriadol sy'n crynhoi eich stori trwy gynnwys y pwy, beth, pam, pryd a lle.
- Ysgrifennwch bob tro yn y trydydd person. Peidiwch byth â dweud 'fi' neu 'ni'.
- Defnyddiwch dyfyniadau yn y stori er mwyn amlygu eich prif bwyntiau.
- Gadewch ddigon o le rhwng geiriau a brawddegau yn y testun, a defnyddio ffont clir a darllenadwy. Gadewch ymylon llydan i'r dudalen.
- Nodwch wybodaeth ategol yn dilyn y nodyn 'gorffen' yn eich datganiad i'r wasg, fel pwy i gysylltu gyda nhw am fwy o wybodaeth neu ffotograffiaeth ategol.

10. Cadwch ar sodlau eich datganiadau

Peidiwch byth â thybio bod diffyg ymateb yn arwydd o ddiffyg diddordeb. Dilynwch eich datganiadau i'r wasg gyda galwad ffôn bob tro. Fe synnech chi faint o weithiau y mae rhywun wedi methu â sylwi arnyn nhw ac maen nhw'n gofyn am gopi newydd.

Cofiwch holi bob tro rhag ofn bod newyddiadurwr yn brysur yn gorffen rhywbeth erbyn amser penodol pan fyddwch yn eu galw. Os ydyn nhw, awgrymwch eich bod yn eu galw'n ôl pan fydd hi'n gyfleus.

Cadw nodiadau ar bob cyhoeddiad y mae'r datganiad wedi ei anfon ato. Nodwch unrhyw weithredu sydd ei angen wedi i chi gysylltu gyda nhw a beth oedd canlyniad unrhyw alwadau ffôn. Bydd gwneud hyn yn fodd i chi fesur yn gyflym iawn faint o ddiddordeb sydd yn eich stori, sicrhau eich bod yn galw pobl yn ôl pan fydd hi'n gyfleus iddyn nhw a chadw cofnod o'r pethau a lwyddodd ac a fethodd â llwyddo yn y datganiad i'r wasg.

11. Dilyn trywydd eich canlyniadau a'u gwerthuso

Hyd yn oed os ydych chi'n anfon un stori yn unig i'ch papur lleol, mae'n dal i fod yn hanfodol bwysig eich bod yn dilyn trywydd eich canlyniadau a'u cofnodi. Os nad ydyn nhw'n defnyddio storïau, ceisiwch ddarganfod y rheswm. Fe allai fod yn gymorth i chi eu llunio'n well ar gyfer y newyddiadurwr hwnnw y tro nesaf.

Cadwch gopïau bob tro o'ch storïau llwyddiannus a'r sylw maen nhw'n ei dderbyn. Mae ffeil o storïau positif i'r wasg yn gallu helpu i ddylanwadu ar y bobl sy'n gwneud polisiau a dal y gyllideb a bydd yn rhoi mwy o rym i drafodaethau gyda phobl a fyddai'n gallu bod yn bartneriaid gwasanaeth neu adfocataid.

take a fresh look at **your**
Library



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government